

Gweithgareddau Comisiynydd y Gymraeg

Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf 3-10 Awst

Bob dydd

Digon o weithgareddau i bawb, gan gynnwys helpa drysor y Cynnig Cymraeg a map rhyngweithiol o enwau lleoedd Cymru. Dewch draw i'n gweld!

Dydd Llun

11:00: Hyrwyddo'r Gymraeg yn effeithiol drwy reoleiddio.

Pabell y Cymdeithasau.

Trafodaeth ar sut i sicrhau bod sefydliadau'n cydymffurfio'n llawn â safonau'r Gymraeg, a beth y gellir ei wneud i hyrwyddo a hwyluso'r ddarpariaeth a gynigir yn well.

Dydd Mawrth

10:30-11:00 a 14:30-15:00: Gweithgareddau gydag Arad Goch.

Dewch i actio, agor y dychymyg a chael hwyl mewn gweithdy drama dan arweiniad Ffion Wyn Bowen o Gwmni Theatr Arad Goch. Addas i blant 6-12 oed a siaradwyr Cymraeg newydd.

12:00-12:30: Lansio partneriaeth rhwng y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a Chynllun y Cynnig Cymraeg

Dydd Mercher

10:00: Sesiwn meddwlgarwch gydag elusen Tenovus. Cyfle i ddysgu am sut i sylwi ar yr hyn sy'n digwydd yn y presennol, o ran eich corff, eich meddyliau a'r amgylchedd.

12:00 a 15:00: Defnyddio'r Gymraeg mewn busnesau ac elusennau. Cyfle am sgwrs anffurfiol gyda thîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg a thîm Helo Blod i glywed sut y gallwn ni helpu busnesau ac elusennau i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg.

Dydd Iau

10:00: Sesiwn meddwlgarwch gydag elusen Tenovus.

Cyfle i ddysgu am sut i sylwi ar yr hyn sy'n digwydd yn y presennol, o ran eich corff, eich meddyliau a'r amgylchedd.

14:00: Lansio elusen y flwyddyn Comisiynydd y Gymraeg.

Dydd Gwener

11:00, 13:00, a 15:00: Gweithgareddau gyda Chanolfan Bedwyr.

Cyfle i ddysgu am ap newydd sbon ARFer sydd â'r nod o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Bydd yr ap yn sicrhau mynediad hwylus at fframwaith sydd wedi profi i fod yn hynod effeithiol. Dewch yn llu am sgwrs ac i ddysgu mwy am ddatblygiad yr ap.

